Ymwybyddiaeth o Alergeddau

Mae Gwasanaethau Arlwyo CBSRhCT yn cydnabod pwysigrwydd rheoli alergeddau bwyd.
Mae'n hollbwysig eu bod nhw'n gwybod am anghenion deietegol penodol cyn i unigolyn gael pryd bwyd yn yr ysgol.
(Yn anffodus, does dim modd i'r Gwasanaethau Arlwyo ddarparu pryd bwyd nes bod y broses yma wedi'i chwblhau).

Dyma fanylion y broses:

1. Rhaid i'r Rhiant neu'r Gwarcheidwad ddarparu llythyr gan feddyg teulu, deietegydd neu weithiwr meddygol proffesiynol arall sy'n rhoi manylion llawn yr alergedd penodol a pha fwydydd y mae'n rhaid eu hosgoi.
   Dylai Clerc yr Ysgol a Gwasanaethau Arlwyo CBSRhCT gael copïau o'r llythyr (manylion cyswllt isod).

2. Bydd bwydlen bersonol sy'n cynnwys yr holl wybodaeth ddeietegol sydd wedi'i darparu yn cael ei pharatoi.
   Bydd y fwydlen bersonol a'r ymwadiad cysylltiedig yn cael eu hanfon at y Rhiant/Gwarcheidwaid a'r Pennaeth. Rhaid i'r naill a'r llall lofnodi'r copïau a'u dychwelyd i Wasanaethau Arlwyo CBSRhCT.

3. Ar ôl cwblhau'r camau yma, bydd y garfan arlwyo ar y safle yn cael gwybod a bydd modd iddi ddarparu pryd bwyd i'r unigolyn.

Gwasanaethau Arlwyo
Tŷ Trevithick
Abercynon
CF45 4UQ

01443 281141

gwasanaethauarlwyo@rctcbc.gov.uk

RHONDDA CYNON TAF

Sylffwr diocsid